



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Arloesi

## Flamgard Calidair

Cwmni o Gymru'n helpu i ddiogelu safle trychineb niwclear waetha'r byd, ar ôl derbyn cefnogaeth mentergarwch gan Lywodraeth Cymru.



Mae cynnyrch Flamgard yn cael ei wneud fesul archeb yn y ganolfan weithgynhyrchu arbenigol sydd gan y cwmni yn Ne Cymru.

Mae'r gweithgynhyrchwyr o Bont-y-pŵl, Flamgard Calidair, yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith hirdymor o wneud safle trychineb niwclear 1986 yn Chernobyl yn ddiogel, diolch i gefnogaeth mentergarwch gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cwmni wedi datblygu damperi tân a mygu arbenigol fel rhan o brosiect peirianeg rhyngwladol 10 mlynedd o hyd sy'n werth €1.5bn i gynllunio a gosod strwythur cyfyngiant newydd dros yr adweithydd niwclear a gloriwyd.

Yn nhelerau peirianeg, prin fod unrhyw brosiectau hyfyw yn y byd ar hyn o bryd sydd mor bwysig nac uchelgeisiol â'r fenter hon. Mae effaith y gefnogaeth a roddwyd i Flamgard gan Lywodraeth Cymru dros yr wyth mlynedd ddiwethaf wedi trawsnewid y cwmni i fod yn arweinydd yn y diwydiant ac yn gystadleuydd ar lefel fydeang.

Mae wedi derbyn cyfanswm o £210,000 mewn cyllid i ddatblygu'r damper tân tymheredd uchel arbenigol sydd ei angen i gyflawni'r cytundeb Cyfyngiad Diogel Newydd. Mae'r arian yn cynnwys

### Llwyddiannau allweddol:

- Buddsoddiad Ymchwil a Datblygu sylweddol werth £210,000 mewn cyllid grant – gan gefnogi rhagor o fusnesau Cymru i arloesi.
- Mynediad i arbenigedd academiaidd drwy gydweithio â Phrifysgol Abertawe – YaD, awtomeiddio a digideiddio. Mae gan brifysgolion rôl bwysig fel gyrrwyr ffyniant a thwff.
- Ennill cytundebau bydeang o ganlyniad i waith niwclear Chernobyl – cefnogi allforion a masnach
- Trosiant a maint y cwmni wedi'i ddyblu (i 63 aelod o staff) mewn deng mlynedd – yn unol ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gael Cymru fwy ffyniannus.

£10,000 o grant Smart Cymru Llywodraeth Cymru (rhan o'r Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd) i ymgymryd ag astudiaeth ddichonolrwydd Technegol a Masnachol; £100,000 o gyllid Smart Cymru ar gyfer cynhyrchu a phrofi seismig o brototeip cynnyrch ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, ac £100,000 ychwanegol gan Gronfa Dwf Economaidd Cymru (WEGF) i brynu offer torri laser newydd i gyflawni manyleb dechnegol y prosiect.

Mae'r gweithgynhyrchwyr arbenigol hyn bellach wedi cael mynediad i farchnadoedd newydd, gan fynd ymlaen i ddiogelu cytundebau sylweddol tebyg gyda chwmnïau fel Rolls Royce yn y diwydiant cynhyrchu ynni; llongau tanfor mewn llyngesau Ewropeaidd, a phrosiect Crossrail Llundain – wrth i hwnnw baratoi i agor ei llinell gyntaf, Llinell Elizabeth, yn ddiweddarach yn 2018. Mae'r cwmni hefyd wedi derbyn cyngor a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ym maes hawliau Eiddo Diwylliannol (IP) a rhoi patentau ar y dechnoleg i hybu cydnabyddiaeth fydeang yn y diwydiant ynghyd â manteision masnachol ar gyfer y cynnyrch. Mae'r gefnogaeth wedi galluogi'r cwmni i ddyblu'r gweithlu i 63 aelod o staff sgilgar dros y 10 mlynedd ddiwethaf – yn unol ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd â'r nod o greu Cymru fwy ffyniannus.

“Mae'r cyllid arbenigol, y cyngor a'r gefnogaeth a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru wedi cael effaith enfawr ar ein busnes, ac mae wedi ein helpu i ennill ar raddfa fawr yn y farchnad fydeang. Mae wedi rhoi mynediad i ni i arbenigedd academiaidd, mae wedi gyrru mentergarwch o ran cynnyrch newydd, wedi dyblu maint ein cwmni a'n trosiant ac wedi ein gyrru ni ar i lwyfan y byd fel arweinwyr yn ein maes. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i gwmnïau mentrus, blaengar yn ddi-ben-draw, a hoffem annog mentergarwyr eraill yng Nghymru i ddilyn yn ein camre.”

Steve Edwards, Rheolwr Gyfarwyddwr, Flamgard Calidair

## Busnes | Business Cymru | Wales

Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:  
03000 6 03000 | [innovation@llyw.cymru](mailto:innovation@llyw.cymru)  
[businesswales.gov.wales/innovation/cy](http://businesswales.gov.wales/innovation/cy)



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**